# Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
# Growing Mid Wales Partnership

**Dydd Llun 27 Chwefror 2023**
1.00pm
Cyfarfod Rhithiol

**Yn bresennol**
Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys **(Cadeirydd) (Cyngh. JG-W)**
Aggie Caesar-Homden, Tyfu Canolbarth Cymru **(ACH)**
Arwyn Watkins, Hyfforddiant Cambrian **(ArW)**
Barbara Green, Tyfu Canolbarth Cymru **(BG)**
Becky Jeremy, Cyngor Sir Powys **(BJy)**
Brett John, Llywodraeth y DU **(BRJ)**
Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Catherine Isik, Llywodraeth Cymru **(CI)**
Catherine Mealing-Jones, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog **(CM-J)**
Claire Miles, Tyfu Canolbarth Cymru **(CMs)**
Y Cynghorydd Jackie Charlton, Cyngor Sir Powys **(Cyngh. JC)**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyngh. BD)**
Y Cynghorydd Clive Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyngh. CD)**
Y Cynghorydd David Selby, Cyngor Sir Powys **(Cyngh. DS)**
David Owen, Tyfu Canolbarth Cymru **(DO)**
Diane Reynolds, Cyngor Sir Powys **(DR)**
Fiona Clay-Poole, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **(FCP)**
Gary Mitchell, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys **(GM)**
Gavin Bown, Cyfoeth Naturiol Cymru **(GaB)**
Glenn Bowen, Cwmpas **(GlB)**
Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant **(HD)**
Lowri Gwilym, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **(LG)**
Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC **(MD)**
Mark Williams, Llywodraeth Cymru **(MW)**
Michelle Muireasgha, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys **(MM)**
Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Nathan Richards, Llywodraeth Cymru **(NR)**
Nia Williams, Cyd-bwyllgor Iechyd Canolbarth Cymru **(NiaW)**
Nicola Williams, Cyngor Sir Powys **(NW)**
Rhys Morris, Llywodraeth Cymru **(RM)**
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion **(RH-P)**
Teleri Davies, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion **(TD)**
Val Hawkins, Twristiaeth Canolbarth Cymru **(MWT)**
Vanessa Cashmore, Coleg Ceredigion **(VC)**

**Siaradwyr**
Gail Dervish, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru **(GD)**
Alun Jones, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru **(AJ)**
Rhian Hayward, ArloesiAber **(RH)**
Luke Player, ArloesiAber **(LP)**

Darparwyd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn gan Sian Jones, Cyfiaith.
Estynnodd y Cadeirydd, y Cyngh. James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys, groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd bobl i'r sawl a oedd yn bresennol.

| | |
|---|---|
| **1.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol:-<br>Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**<br>Ann Watkin, Llywodraeth Cymru **(AW)**<br>Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**<br>Barry Rees, Cyngor Sir Ceredigion **(BR)**<br>Caroline Turner, Cyngor Sir Powys (**CT)**<br>Cathy Martin, Tyfu Canolbarth Cymru **(CMn)**<br>Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru **(CS)**<br>Y Cynghorydd Keith Henson, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyngh. KH)**<br>Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Cyngor Gwynedd<br>Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**<br>Hazel Lloyd-Lubran, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion **(HL)**<br>Peter Howells, NFU Cymru **(PH)**<br>Peter James, Llywodraeth Cymru **(PJ)**<br>Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Y GIG **(PS)**<br>Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth **(RLlM)** |
| **2.** | **Cofnodion**<br>Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir fel yr oeddent. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies. Eiliwyd gan Arwyn Watkins. |
| **3.** | **Diweddariad yn dilyn y cyfarfod â Vaughan Gething AS**<br>Rhoddodd y Cadeirydd, y Cyngh. JG-W, ddiweddariad ynghylch y cyfarfod yr oedd wedi'i fynychu gyda'r Cyngh. BD a swyddogion eraill. Cafodd y Gweinidog wybod bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda a bod sawl prosiect yn barod i fynd pan fyddai'r cyllid wedi'i gytuno. Bu'r Gweinidog yn trafod yr alinio rhwng y Fargen Twf a phrosiectau a chynlluniau'r Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Rhoddwyd sicrwydd iddo bod hynny'n bwysig iawn i'r rhanbarth a bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu â phrosiectau'r Fargen Twf, a oedd yn cynnig cysylltiadau da. Pwysleisiodd y Cyngh. JG-W fod cynllunio'n bwysig, a nododd fod y gofynion i ddiweddaru ac adnewyddu'r cynlluniau datblygu lleol a'r cynlluniau datblygu rhanbarthol strategol yn barhaus yn rhoi straen ar y ddau awdurdod, a bod y gwaith hwnnw y tu hwnt i gapasiti'r awdurdodau lleol a'r rhanbarth.<br><br>Roedd y Cyngh. BD yn teimlo bod y Gweinidog yn gwrando, a phwysleisiodd y ddau Arweinydd fod cael cyfarfod â'r ddwy Lywodraeth yn bwysig. Gofynnwyd am y cyfarfod hwnnw ym mis Rhagfyr 2022, ond nid oes dim wedi'i drefnu hyd yma. Gan siarad o safbwynt Ceredigion, tynnodd y Cyngh. BD sylw'r Gweinidog at y broblem o ran ffosffadau a chynllunio, yn benodol yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi ac yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig forol. Os ceir adroddiad negyddol, bydd yn effeithio ar brosiectau Ceredigion a'r Fargen Twf. Roedd gan y Gweinidog ddiddordeb mewn cael gweld beth fydd gan y sector preifat i'w gynnig, a thynnwyd ei sylw at bwysigrwydd mewnbwn y Grŵp Cynghori Economaidd yn y gweithdai a gynhaliwyd yn ddiweddar.<br><br>Roedd y Cyngh. JG-W a'r Cyngh. BD yn fodlon iawn â'r cyfarfod ac maent yn aros am y canlyniadau. |
| **4.** | **Diweddariadau ynghylch Busnes**<br>Dywedodd Claire Miles (CMs) wrth y cyfarfod bod dull gwahanol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno diweddariadau ynghylch busnes i'r Bartneriaeth. Bydd cyflwyniad sydd wedi'i gyfuno ynghylch busnes yn ymdrin â'r prif ddiweddariadau, y cyd-destun a'r problemau sy'n ymwneud â chyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru, a bydd yn cael ei alw'n adolygiad o'r dirwedd. Bydd yn ddull mwy effeithlon i'r cyfarfod a bydd yn caniatáu mwy o amser i bartneriaid allanol a llywodraethau drafod eitemau eraill sydd ar yr agenda. Byddai swyddogion rhanbarthol sy'n bresennol yn y cyfarfod yn gallu ymateb i unrhyw gwestiynau a fyddai'n codi o'r cyflwyniad.<br><br>Roedd y papurau yr oedd y cyflwyniad yn ymdrin â nhw wedi'u dosbarthu ac yn darparu mwy o fanylion. Os bydd yna unrhyw feysydd pwysig y mae angen ymdrin â nhw'n fwy manwl mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, byddant ar yr agenda ac ni fyddant yn cael eu cuddio yn yr adolygiad o'r dirwedd.<br><br>Cafodd y cyflwyniad ei rannu â'r cyfarfod a thynnodd CMs sylw at y meysydd canlynol. |

| | |
|---|---|
| | **Bargen Twf Canolbarth Cymru**<br>Bydd Nicola Williams (NW) yn ymdrin ag unrhyw gwestiynau yn absenoldeb Cathy Martin. Prif ffocws y Fargen Twf ar hyn o bryd yw dod â'r achosion busnes yn eu blaen, parhau i ddatblygu prosiectau a rhaglenni, a diweddaru'r sefyllfa ar achos busnes y Portffolio. Ar 10 Chwefror, cafodd gweithdy ei gynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r Grŵp Cynghori Economaidd, a fu'n ystyried y newidiadau arfaethedig i achos busnes y Portffolio. Bydd yr achos busnes diwygiedig yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd Rhaglenni ar 28 Mawrth. Yn ogystal, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad sicrwydd yn ddiweddar yng nghyswllt y Portffolio, ym mis Chwefror. Mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn dda a chafodd y Portffolio ei roi yn y categori oren/gwyrdd. Mae hynny'n ganlyniad cadarnhaol iawn ar gyfer y prosesau ac ar gyfer y gwaith a wnaed hyd yma.<br><br>Mae gweithdai rhanddeiliaid wedi'u cynnal yn ddiweddar, lle mae prosiectau a rhaglenni posibl wedi bod yn cyflwyno eu hachosion amlinellol strategol a'u syniadau. Mae digon o waith i'w wneud o hyd yn 2023.<br><br>**Y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol**<br>Prif ffocws y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol oedd Cynllun Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru. Mae'n egluro'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y rhanbarth. Mae wedi'i gymeradwyo yn ddiweddar yng nghyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a bydd yn cael ei lansio yn nigwyddiad ymgysylltu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn Llandrindod ar 23 Mawrth.<br><br>Dywedodd **Michelle Muireasgha (MM), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys**, fod y Gymdeithas wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Powys i gyflawni astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y Gronfa Adfywio Cymunedol ynghylch anghenion, sgiliau a hyfforddiant gwirfoddolwyr ym Mhowys a phobl a oedd am ddefnyddio gwirfoddoli fel llwybr at gyflogaeth. A yw hynny wedi'i gynnwys yn y Cynllun?<br><br>Dywedodd **Aggie Caesar-Homden (AC-H)** fod y cynllun wedi'i lunio gan ddefnyddio pob un o'r rhwydweithiau partner, a oedd yn cynnwys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r sector cymunedol a gwirfoddol. Nid yw'r adroddiad ei hun wedi'i gynnwys yn y cynllun ond roedd parodrwydd i'w ychwanegu fel atodiad.<br>**GWEITHREDU:** ***MM i anfon gwybodaeth at Barbara Green (BG) ar ôl y cyfarfod. Bydd y manylion yn cael eu hanfon ymlaen at AC-H.***<br><br>**Astudiaeth Canolbarth Cymru a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth**<br>Roedd hwn yn ddarn o waith a wnaed ar y cyd rhwng yr awdurdodau lleol, Tyfu Canolbarth Cymru, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Twristiaeth Canolbarth Cymru a rhanddeiliaid rhanbarthol ym maes twristiaeth. Cafodd y gwaith ei ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae twristiaeth yn rhan o'r ddogfen sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, ac mae'r sector yn gyflogwr pwysig yn y rhanbarth ac yn darparu dros 23,000 o swyddi.<br><br>Amlinellodd CMs gynnwys yr adroddiad, yr amryw gamau wrth iddo gael ei ddatblygu, a'r cynllun gweithredu terfynol. Mae'r canfyddiadau yn dangos bod y gwaith yn y sector twristiaeth ehangach yn cael ei arwain gan y gymuned. Roedd cynaliadwyedd yn thema allweddol, nid yn unig o safbwynt yr amgylchedd ond hefyd o safbwynt yr economi'n gyffredinol ym maes twristiaeth. Roedd hynny'n golygu bod angen sicrhau mwy o wariant yn ystod pob ymweliad a bod angen gwasgaru ymweliadau ar draws y rhanbarth cyfan. Nid oedd twf economaidd cyflym yn flaenoriaeth. Roedd tirwedd y rhanbarth a'r cyfleoedd sydd yn y rhanbarth i fod yn yr awyr agored yn nodweddion amlwg iawn, yn ogystal â rhaglen lewyrchus o ddigwyddiadau. Roedd Canolbarth Cymru fel pe bai'n fan lle gellid dianc rhag prysurdeb bywyd. Y camau nesaf fydd gweithio gyda Croeso Cymru ar y cynllun gweithredu, a gweithio'n fewnol ar sicrhau adnoddau er mwyn i'r gwaith hwn allu parhau. Cafodd partneriaid a oedd yn y cyfarfod eu hannog gan CMs i ystyried cydweithio ar y gwaith hwn er mwyn hybu datblygiad y sector. Cafodd yr adroddiad terfynol a'r cynllun gweithredu'n ymwneud â Cham 2 eu hanfon allan cyn y cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| | Diolchodd y **Cyngh. BD** i CMs am y wybodaeth. Mae pwysau ar awdurdodau i weithio ar ardoll dwristiaeth. A yw hynny wedi'i ystyried? Atebodd CMs gan ddweud nad oedd yr ardoll wedi'i chynnwys fel cwestiwn penodol yn ystod yr ymchwil ond ei bod wedi'i chrybwyll mewn sgyrsiau â rhanddeiliaid. Nid oedd CMs yn gallu cadarnhau unrhyw fanylion heb gyfeirio'n uniongyrchol at yr adroddiad ar hyn o bryd.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd na chyfeirir yn ddigon aml at hygyrchedd y rhanbarth. Defnyddiodd yr A470 fel enghraifft o lwybr sydd erbyn hyn yn llwybr da iawn drwy'r rhanbarth, ac fe'i cymharodd â rhai ffyrdd sy'n ffinio â'r rhanbarth. Dywedodd CMs na chafodd hygyrchedd ei nodi'n faes a oedd yn peri pryder, yn dilyn y gwaith a gyflawnwyd.<br><br>**Strategaeth Arloesi**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth Arloesi. Yng nghyfarfod diwethaf y Bartneriaeth, nodwyd bod y maes polisi'n un annelwig braidd. Mae'r strategaeth yn egluro dull trawslywodraethol integredig o weithredu ac yn ystyried arloesi yn ei ystyr ehangach, ac mae Tyfu Canolbarth Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ymgynghori ynghylch y strategaeth ac yn y gwaith o'i datblygu. Mae pedair thema'n perthyn i'r strategaeth, sef addysg, yr economi, iechyd a llesiant, a'r hinsawdd a natur. Mae adran yn y strategaeth yn cyfeirio at arloesi rhanbarthol ac at rolau rhanbarthau yn yr ecosystem arloesi. Mae'n ddogfen strategol lefel uchel, ond mae Tyfu Canolbarth Cymru yn gobeithio ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y camau nesaf, sef y cynllun gweithredu i gyflawni'r canlyniadau. Nododd CMs hefyd fod gwaith wedi'i gyflawni gydag Ymchwil ac Arloesi yn y DU a'i swyddfa yng Nghymru, a bod angen ymgysylltu â phob partner ynglŷn â'r maes hwn.<br><br>Nododd **Arwyn Davies (AD)** fod hyn yn bwysig iawn i Ganolbarth Cymru yn strategol fel rhanbarth. Dyma gyfle i ganolbwyntio ymhellach ar yr ardal hon a dod â phartneriaid allweddol ynghyd i ystyried sut y bydd o fantais i'r rhanbarth. Nid yw'r rhanbarth wedi llwyddo i ddenu cyllid gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU i'r ardal yn y gorffennol, er gwaetha'r hyn sydd gan y rhanbarth i'w gynnig, a gallai fod yn allweddol i ddatblygiadau yn y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd y **Cynghorydd Jackie Charlton (Cyngh. JC)**, Cyngor Sir Powys at bwynt ar y sleidiau ynghylch cydweithio a'r effaith i ddinasyddion. Sut y bydd hynny'n gweithio, a beth y mae'r pwynt hwnnw'n ei olygu? Mae'n ffordd dda o ddod â Chynulliadau Dinasyddion i'r rhanbarth a chyflawni ar sail y pwyntiau hynny. Atebodd CMs gan ddweud mai dogfen gan Lywodraeth Cymru oedd hi, ac nad oedd felly'n gallu trafod y pwynt hwnnw'n benodol. Fodd bynnag, o safbwynt cydweithio, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers dros flwyddyn ar fewnbwn i'r ddogfen hon ac mae gweithdai wedi'u cynnal er mwyn gweithio ar ddylunio'r strategaeth. Nid oedd neb o dîm arloesi Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y cyfarfod, ond byddai CMs yn fodlon rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch y pwynt a nodwyd uchod.<br><br>**GWEITHREDU:** ***CMs i roi adborth i gydweithwyr yn nhîm arloesi Llywodraeth Cymru ynghylch y pwynt a wnaed gan y Cyngh. JC am gydweithio a'r effaith i ddinasyddion a beth y mae hynny'n ei olygu.***<br>**GWEITHREDU:** ***CMs i ddosbarthu'r cyflwyniad ar ôl y cyfarfod***.<br><br>O safbwynt y dirwedd o ran polisi a chyllid, y ffaith bod cyllid yr UE yn dod i ben a lefel gweithgarwch rhanbarthol ar hyn o bryd, mae'r swyddogion rhanbarthol wedi bod yn ystyried beth ddaw nesaf ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru a chydweithio rhanbarthol. Roedd a wnelo hynny â gweithio tuag at nodau ac amcanion y ddogfen sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, a gafodd ei chwblhau ddechrau 2020. Mae'r ddogfen honno'n adlewyrchu'r economi cyn y pandemig ac nid yw'n adlewyrchu newidiadau yn y dirwedd o ran polisi ar ôl Brexit a'r dirywiad economaidd byd-eang. Mae'r cylchoedd cyllido yn berthnasol i'r rhanbarth tan 2025, ond beth fydd yn digwydd wedyn? Mae hwn yn gyfle da i adolygu beth y bydd Tyfu Canolbarth Cymru yn ei ystyried yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf. Mae papur wedi'i gyflwyno i Grŵp Rheoli Tyfu Canolbarth Cymru, ac yn ystod y misoedd nesaf bydd y ddogfen sy'n disgrifio'r weledigaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel ei bod yn adlewyrchu'r pwyntiau a nodwyd uchod ac yn ystyried y dirwedd o ran polisi a strwythurau cyllido sydd wedi newid y ffordd o weithio. Bydd yn gyfle i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phartneriaid allanol, gan gynnwys llywodraethau, ynghylch y strwythurau sydd wedi'u diweddaru, ynghylch |

| | |
|---|---|
| | sut y mae Tyfu Canolbarth Cymru yn gweithio'n awr gyda fframwaith economaidd rhanbarthol a pholisïau ehangach ac ynghylch sut y mae'n alinio â nhw.<br><br>Roedd **Lowri Gwilym (LG), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** yn cytuno ei bod yn adeg briodol iawn i wneud y gwaith hwn, er mwyn diweddaru gwybodaeth a myfyrio ynghylch y gwaith a wnaed hyd yma, a nododd fod rhychwant eang y gwaith y mae Tyfu Canolbarth Cymru wedi'i gyflawni yn drawiadol a'i bod yn fodlon cefnogi'r gwaith a grybwyllwyd uchod. Cyn cyfarfod y Bartneriaeth, roedd cyfarfod wedi'i gynnal â'r Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol lle'r oedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi rhoi diweddariad ynghylch cam nesaf ei waith. Gofynnwyd iddo sicrhau bod gwaith y Sefydliad yn cyd-fynd â'r gwaith y bwriedir ei wneud yn y rhanbarth. Bydd LG yn sicrhau bod Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei gysylltu â'r gwaith hwnnw.<br><br>Roedd **Arwyn Watkins (ArW)** yn cefnogi'r angen i adolygu a diweddaru. Mae'n hollbwysig o safbwynt sgiliau ac o safbwynt yr hyn sy'n ofynnol yn y dyfodol, a bydd y ffaith bod y ddogfen wedi'i diweddaru gymaint ag sy'n bosibl o fantais i bawb.<br><br>Gorffennodd CMs drwy ychwanegu bod y swyddogion rhanbarthol ar gael os hoffai unrhyw bartneriaid gael rhagor o wybodaeth, ond anogodd yr aelodau i gofrestru i gael llythyr newyddion misol Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd ynghylch y gwaith rhanbarthol.<br><br>Ni fyddai **eitem 4.ii** yn cael sylw gan nad oedd Ann Elias yn y cyfarfod, ond roedd adroddiad cynhwysfawr wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod gyda phapurau eraill.<br><br>**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU**<br>Cyflwynodd **Becky Jeremy (BJy)** ei hun, a dywedodd wrth y cyfarfod y byddai cyn bo hir yn dechrau ar ei swydd fel Rheolwr Rhanbarthol Canolbarth Cymru ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac yn symud o Gyngor Sir Powys i Gyngor Sir Ceredigion.<br><br>Cyn ymdrin â rhai pwyntiau allweddol o'r papur a gyflwynwyd gan Carwyn Jones-Evans, nododd BJy wall bach yn adran 2.2 gan ddweud mai'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Cabinet mewn gwirionedd yw mis Gorffennaf a mis Rhagfyr.<br><br>Gan gyfeirio at adran 2.5, cafodd Cyngor Sir Ceredigion fel yr awdurdod arweiniol wybod gan Lywodraeth y DU ar 11 Ionawr bod amodau rhagdalu wedi'u datrys. Mae yna rai materion y mae angen eu datrys o hyd neu y disgwylir rhagor o wybodaeth amdanynt. Mae'r materion hynny'n ymwneud â rheoli achosion o danwario, a gofynion adrodd. Ers ysgrifennu'r diweddariad, mae rhywfaint o wybodaeth bellach wedi dod i law ac yn cael sylw.<br><br>Lluosi – mae ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sgiliau rhifedd, ond byddai awdurdodau lleol ledled Cymru yn hoffi pe bai'n cynnwys sgiliau digidol hefyd. Nid yw trafodaethau ynghylch hynny wedi dod i ben eto.<br><br>Disgwylir hefyd am ragor o arweiniad a manylion ynghylch monitro a gwerthuso.<br><br>Adran 3.1: Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth wrthi'n cael ei baratoi rhwng Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Nid yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn mynnu unrhyw gytundeb ffurfiol ar lefel ranbarthol ond mae'r model yn golygu cael Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod arweiniol gyda'r partneriaethau lleol cyfansoddiadol. Hyd yma, mae Partneriaeth Leol Cyngor Sir Powys wedi cyfarfod ddwywaith.<br><br>Adran 4 (Gweithgarwch o ran prosiectau). Mae'r ddau awdurdod lleol wedi bod yn cyflawni gwaith mewnol i nodi cynigion a gweithgareddau er mwyn lliniaru achosion o danwario ym Mlwyddyn 1. Mae gwaith cynllunio ar y gweill i nodi gwariant realistig ac unrhyw fylchau.<br><br>Canolbwyntir yn awr ar amseru'r alwad gyntaf am geisiadau. Mae'r amseru yn cael ei drafod gan dimau cyflawni lleol a phartneriaethau lleol yr awdurdodau lleol. Bydd y ddau awdurdod lleol yn gallu teilwra amseru'r galwadau, ond bydd yna gymaint o alinio ag sy'n bosibl ar draws y ddwy ardal er mwyn sicrhau cysondeb. Bydd datganiad ar y cyd i'r wasg ar 9 Mawrth |

| | |
|---|---|
| | yn cyhoeddi gwybodaeth am y galwadau, a bwriedir cynnal gweminar dros ZOOM ar 16 Mawrth er mwyn darparu gwybodaeth am y prosesau ar gyfer gwneud cais, am y Gronfa ac am ffocws yr alwad.<br><br>Gofynnodd **Cyngh. JG-W, y Cadeirydd**, pryd y mae'r blynyddoedd yn dechrau ac yn gorffen o safbwynt y Gronfa. Atebodd BJy gan ddweud mai blynyddoedd ariannol ydynt; bydd Blwyddyn 1 yn gorffen ar 31 Mawrth 2023 a bydd Blwyddyn 2 yn dechrau'n syth wedyn. Soniodd y Cyngh. JG-W am yr arian na chafodd ei wario ym Mlwyddyn 1 gan ofyn beth sy'n digwydd i'r tanwariant? Atebodd BJy gan ddweud bod yr oedi yn y broses gymeradwyo'n golygu bod y ddau awdurdod lleol wedi nodi prosiectau gan y cyngor a bod papurau wedi'u cyflwyno i'r ddau Gabinet, a oedd yn amlinellu'r cynlluniau i leihau'r posibilrwydd o golli cyllid. Fel rhanbarth, mae yna wariant nas neilltuwyd y mae'r rhanbarth yn ceisio ei symud i Flwyddyn 2, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth y DU i ystyried beth y mae angen ei wneud i sicrhau'r cyllid hwnnw. Mae'r rhanbarth wedi cael gwybod bod modd ailbroffilio, ond bydd hynny'n amodol ar gyflwyno cynllun credadwy ac mae gwybodaeth am y diffiniad o gynllun credadwy newydd ddod i law.<br><br>**CWESTIYNAU/SYLWADAU**<br>Gofynnodd **Gary Mitchell (GM), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys**, pa brosiectau y mae Ceredigion yn eu cefnogi ym Mlwyddyn 1 a pha wybodaeth y gellir ei rhannu â'r grŵp hwn?<br>**GWEITHREDU:** ***BJy i ofyn am wybodaeth gan CJ-E, y gellir ei dosbarthu wedyn i'r Bartneriaeth.***<br><br>Nododd **GM** fod Cyngor Sir Powys wedi cymeradwyo 33 o brosiectau, yr oedd eu gwariant yn cyfateb i £3.3 miliwn, ond bod yna £600 o danwariant i'w gario drosodd i Flwyddyn 2. A oedd hynny'n gywir? Nododd GM fod angen i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion gydnabod mai cyllid yn lle cyllid rhanbarthol yr UE yw hwn a bod sawl grŵp gwirfoddol yn ei chael yn anodd deall beth sy'n ofynnol ganddynt i wneud cais, ond y bydd y weminar a'r datganiad i'r wasg yn helpu i egluro hynny. Mae angen i bawb gynllunio i weithio'n gyflym ar Flwyddyn 2 er mwyn cael y maen i'r wal oherwydd yr amserlenni tynn.<br><br>Gofynnodd **GM** a oedd awdurdodau lleol y rhanbarth wedi siarad ag awdurdodau lleol eraill? Mae model Gwynedd yn ddiddorol, ac yn ddiweddar cyflwynodd Gwynedd alwad am o leiaf £250,000 o wariant yng nghyswllt pob prosiect.<br>Atebodd BJy gan nodi bod timau cyflawni a phartneriaethau'r awdurdodau lleol yn cydweithio â'i gilydd yn rheolaidd ac yn barhaus. Cydnabyddir bod angen adnoddau yn y ddau awdurdod lleol, ond mae'n annhebygol y bydd y rhanbarth yn dilyn model Gwynedd. Bydd gwybodaeth ar gael yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.<br><br>Nododd y **Cyngh. BD** y byddai ffigurau ar gael gan Arwyn Davies. Mae angen i'r aelodau fod yn ymwybodol bod y ddau Arweinydd wedi bod yn codi'r mater ynghylch Lluosi a sgiliau digidol a sgiliau llythrennedd mewn sawl fforwm ers peth amser, a'n bod yn dal i ddisgwyl am atebion.<br><br>Mae **AD** yn fodlon rhannu manylion y cynlluniau sydd wedi'u cefnogi hyd yma. Bydd rhagor o wybodaeth am y meysydd a gefnogir yn cael ei chyhoeddi ar 9 Mawrth, ac mae hynny'n cael ei wneud mewn modd sydd wedi'i dargedu. Mae gwaith ymgynghori wedi'i gyflawni ar gyfer y strategaethau lleol a rhanbarthol gan adeiladu ar waith a wnaed gyda'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Dylai fod yn glir i bartneriaid beth yw'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd a pha syniadau sy'n ofynnol i gyrraedd y nodau strategol yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae'r dull gweithredu yn wahanol i ddull gweithredu awdurdodau lleol, ac mae yna resymau penodol dros hynny.<br>**GWEITHREDU:** ***ddosbarthu'r wybodaeth am gynlluniau i aelodau'r Bartneriaeth.***<br><br>Gofynnodd **Glenn Bowen, Cwmpas (GlB)**, am i'r broses gwneud cais ar gyfer y rhanbarth fod mor rhwydd ag sy'n bosibl fel bod modd symud yn sydyn drwy'r prosesau sy'n ofynnol. Mae adnoddau ymgeiswyr yn brin, yn enwedig yn y sector gwirfoddol. Dywedodd BJy wrth y cyfarfod y bydd yna un ffurflen a gaiff ei dyblygu ar draws y ddau awdurdod ac a fydd ar gael |

| | |
|---|---|
| | ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru a gwefannau'r ddau awdurdod lleol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau i'r ddau awdurdod lleol er mwyn i'r partneriaethau lleol eu hystyried.<br><br>Dywedodd **Val Hawkins, Twristiaeth Canolbarth Cymru**, mai'r ffocws ar gyfer Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru oedd ysgogi newid trawsffurfiol, a oedd yn weledigaeth bwysig. Mae cronfa ranbarthol y Gronfa Ffyniant Gyffredin, sydd ag amserlenni tynn, yn ei gwneud yn anodd cyflwyno cynigion rhanbarthol oherwydd bod y gwaith wedi'i arwain ar lefel awdurdodau lleol yn hytrach na chorff rhanbarthol. O ran cynigion strategol, mae'r elfen ranbarthol yn bwysig, ond mae'n destun siom nad yw hynny wedi'i ystyried yn gynharach yn y broses gynllunio.<br><br>Soniodd **Lowri Gwilym, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**, wrth y cyfarfod am y gwaith lobïo a negodi a wneir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dim ond yn ystod yr wythnos flaenorol yr oedd Llywodraeth y DU wedi egluro nifer o faterion sylfaenol i alluogi'r awdurdodau lleol arweiniol i symud ymlaen. Mae'r pedwar awdurdod lleol arweiniol ar draws Cymru yn symud ymlaen gan wynebu risg oherwydd y modd y mae'r gronfa wedi'i sefydlu. Mae gweithio'n rhanbarthol wedi bod yn heriol iawn ar ôl i gyllid gael ei ddyrannu ar lefel leol i 22 o awdurdodau unedol. Un cyfyngiad yw'r llythyrau pennu grant blynyddol; bydd swyddog Adran 151 mewn awdurdod arweiniol yn wyliadwrus ynghylch llofnodi'r dogfennau cyfreithiol blynyddol. Nid oes llythyrau pennu grant wedi'u rhoi ar gyfer y tair blynedd o gyllid. Maent yn cael eu rhoi ar gyfer blwyddyn ar y tro, sy'n gwneud bywyd yn anodd i'r awdurdodau lleol arweiniol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol arweiniol i gael yr arian i lifo ac i sicrhau na chaiff cyllid ei golli. Bydd yn cyfarfod â Llywodraeth y DU ar 2 Mawrth i sicrhau bod tanwariant Blwyddyn 1 yn cael ei drosglwyddo i Flynyddoedd 2 a 3. Ni fydd unrhyw gyllid ar ôl mis Mawrth 2025, sy'n golygu 18 mis o amser cyflawni. Nid dyma'r cyllid y gobeithid ei gael yn lle cyllid yr UE. Bydd angen i brosiectau gael eu cau ym mis Rhagfyr 2024, ac mae LG yn gweithio gyda CJ-E a BJy i sicrhau bod y trefniadau'n adlewyrchu'r sefyllfa y mae rhanbarth Canolbarth Cymru ynddi.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i LG am y diweddariad pwysig hwn sy'n golygu bod pawb yn ymwybodol o'r gwaith a wneir a'r cyfyngiadau sy'n bodoli. |
| **5.** | **Diweddariadau gan y Llywodraeth(au)**<br>**5.1 Diweddariad gan Lywodraeth Cymru**<br>Rhys Morris, Llywodraeth Cymru **(RM)** yw'r Prif Swyddog Rhanbarthol newydd ar gyfer Canolbarth, Gorllewin a Gogledd Cymru, yn lle Rhodri Griffiths a Gwenllian. Bydd RM yn chwarae rhan fwy amlwg yn y dyfodol, ond oherwydd mai dim ond ers ychydig wythnosau yr oedd wedi bod yn ei swydd nid oedd yn gallu rhoi adroddiad y tro hwn.<br>**GWEITHREDU:** ***RM i roi diweddariad a fydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r Bartneriaeth.***<br><br>**5.2 Diweddariad gan Lywodraeth y DU**<br>Rhoddodd Catherine Isik (CI) ddiweddariad byr. Roedd CI yn sylweddoli'r sefyllfa yr oedd yr awdurdodau lleol a'r rhanbarth ynddi, a'r ansicrwydd ynghylch rhai o feysydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae Llywodraeth y DU yn dal i weithio gydag awdurdodau lleol ac mae gwaith yn parhau, yn enwedig yng nghyswllt Lluosi a chynlluniau credadwy. Cadarnhaodd CI fod modd i danwariant Blwyddyn 1 gael ei gario drosodd i Flynyddoedd 2 a 3 o gael cynllun credadwy. Caiff y meysydd hynny eu trafod mewn cyfarfodydd bob pythefnos â Huw Bryer, Dirprwy Gyfarwyddwr Tîm Cymru, a Matt Hicks.<br><br>O ran y Gronfa Ffyniant Bro, mae Llywodraeth y DU yn dal i weithio gydag awdurdodau lleol ar brosiectau Rownd 1 y Gronfa honno. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd yn ei flaen. O ran Rownd 2 y Gronfa Ffyniant Bro, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu rhoi adborth yn fuan ynghylch y cynigion a oedd yn aflwyddiannus. Bydd mwy o wybodaeth ar gael ar gyfer Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro.<br><br>Cyflwynodd CI Brett John, Llywodraeth y DU (BRJ), sef yr Arweinydd Ardal newydd ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru. Dywedodd BRJ ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r rhanbarth wrth i'r gwaith gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro fynd |

| | |
|---|---|
| | rhagddo. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yr wythnos hon â chysylltiadau yn y ddau awdurdod lleol er mwyn ystyried materion yn fwy manwl.<br><br>**CWESTIYNAU**<br>Gofynnodd y Cyngh. BD a fydd yna unrhyw drafodaethau ynghylch Rownd 3. Mae CI yn fodlon gwrando ac yn barod i drafod y tu allan i'r cyfarfod.<br>**GWEITHREDU: *CI i anfon ebost at y Cyngh. BD i drefnu cyfarfod er mwyn trafod Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro a meysydd megis Teithio Llesol.*** |
| **6.** | **Diweddariad ynghylch gweithgarwch sy'n berthnasol i'r canolbarth**<br>**6.1 ArloesiAber – Pad Lansio dan Arweiniad Her Canolbarth Cymru**<br>Yr Athro Rhian Hayward, Prif Weithredwr, ArloesiAber a Luke Player, Strategaeth Arloesi (un o bartneriaid cyflawni'r prosiect).<br>Rhoddodd RH esboniad cryno o gefndir y prosiect a ariannwyd gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU y llynedd. ArloesiAber fu'n arwain y prosiect, sef y campws arloesi a menter sydd wedi'i gydleoli â Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r gyfres gyntaf o adeiladau wedi'i sefydlu, ac mae'n cynnwys adeilad deor sy'n cefnogi cwmnïau newydd a busnesau sy'n tyfu. Mae cysylltiad agos rhwng Pad Lansio dan Arweiniad Her Canolbarth Cymru a'r Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd y mae Prifysgol Aberystwyth wrthi'n ei gynllunio dan Fargen Twf Canolbarth Cymru. Mae ArloesiAber yn gobeithio cynnal y math hwn o brosiect yn y dyfodol er mwyn creu clwstwr o fusnesau'n seiliedig ar wybodaeth yn y canolbarth.<br>Rhannodd RH y cyflwyniad â'r cyfarfod a chafodd ei roi ar y cyd ganddi hi a Luke Player.<br><br>**CWESTIYNAU**<br>Roedd **CMs** am longyfarch RH oherwydd nodwyd yn Strategaeth Arloesi'r DU, a gyhoeddwyd yn gynharach heddiw, bod y prosiect hwn yn enghraifft o arfer da gan ddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfer dull gweithredu sy'n seiliedig ar her. Mae'n ddangosydd da ar gyfer llwyddiant. Buodd CMs yn gweithio ar y prosiect hwn gyda'r rhanddeiliaid eraill, ac mae'n gadarnhaol bod rhywbeth gwahanol wedi'i wneud yn y canolbarth gyda gwaith datblygu sy'n seiliedig ar feithrin sgiliau. Mae ei angen yn fawr yn y rhanbarth.<br><br>**6.2 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Datblygiadau strategol**<br>Rhannodd Gail Dervish, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (GD), y cyflwyniad a gafodd ei roi ar y cyd ganddi hi ac Alun Jones, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (AJ).<br><br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw'r corff trosfwaol sy'n gofalu am fudiadau gwirfoddol yng Nghymru ar y cyd ag 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn hwyluso dau gyfarfod bob blwyddyn â Gweinidogion, ac mae'n gyllidwr grantiau a benthyciadau o bwys i'r sector. Mae tîm grantiau yn dal ar waith, sy'n cefnogi Gwirfoddoli yng Nghymru, Cymru ac Affrica, partneriaethau natur lleol, Comic Relief ac amryw brosiectau. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn gweithio ar faterion polisi ehangach gyda'r partneriaid sy'n cyfateb iddo yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.<br><br>Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o ymwneud Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru â chyllid yr UE, a fydd yn dod i ben yn fuan. Soniodd GD am Gynhwysiant Gweithredol, a byddai AJ yn sôn am Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru.<br><br>**CWESTIYNAU**<br>Diolchodd y **Cyngh. BD** i GD am waith ardderchog Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac am y cymorth y mae'n ei roi i'r sector gwirfoddol. Bydd colli cyllid yr UE yn effeithio'n sylweddol ar y sector, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen mwy o sgyrsiau i drafod cymorth ar ôl Brexit. Awgrymodd GD y dylai unrhyw ymholiadau ynghylch hynny gael eu cyfeirio at CMs a fydd yn gallu eu trosglwyddo i Matt Brown, Cyfarwyddwr Canolbarth Cymru. Roedd CMs yn fodlon parhau i drafod ar ôl y cyfarfod, a byddai hynny o gymorth hefyd i'r gwaith mapio a grybwyllwyd yn gynharach.<br><br>Soniodd y Cyngh. JC fod y diffyg cyllid yn effeithio'n fwy sylweddol ar Geredigion nag ar Bowys. Nid oedd Powys yn cael mynediad i gyllid yn yr un modd â Cheredigion. Mae cyllid yr UE, yn ogystal â'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud, yn werthfawr dros ben. Mae'r holl arian a ddaw o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Bro yn |

| | |
|---|---|
| | llai na chyllid yr UE, yr oedd mudiadau'n ei gael o'r blaen. Mae gwaith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi datblygu'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector, sy'n wahanol yn eu rhinwedd eu hunain. Gwelwyd y dylai pawb ymgysylltu â'r sectorau hyn. Bydd yn anodd i fusnesau bach ac elusennau gael budd o'r cronfeydd cyllid sydd ar gael yn awr. Gofynnwyd a ellir cadw'r pryderon hyn ar yr agenda gyda swyddogion a chynghorwyr, a nodwyd bod sgyrsiau gonest ac agored yn cael eu gwerthfawrogi.<br><br>**GWEITHREDU:** ***Dosbarthu'r cyflwyniadau i aelodau'r Bartneriaeth ar ôl y cyfarfod (BG).*** |
| **7.** | **Unrhyw fater arall**<br>Nid oedd unrhyw fater arall. |
| **8.** | **Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**<br>• Dydd Gwener, 12 Mai 2023<br>• Dydd Mawrth, 18 Medi 2023<br>• Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023 |
| | |

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds